

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. DEFNYDDIO SGWTERS SYMUDEDD

Ymhellach i gofnod rhif 13 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 201, penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

3. ADRODDIAD CYNNYDD 'CARU'R RHYL'

Derbyn adroddiad 'adroddiadau yn y wasg' gan yr ymgynghorwyr Webber Shandwick (oherwydd y maint, arddangosir fersiwn digidol yn y cyfarfod).

4. HYFFORDDI AELODAU

Cynghori ar hyfforddiant mewnol a gynlluniwyd a sesiynau hyfforddi anffurfiol / hyfforddiant cyflwyno ar gyfer Cynghorwyr newydd.

5. EITEMAU AELODAU

- (i) Y Cynghorydd S. Harris – Gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i wneud cyflwyniadau i Gyngor Sir Ddinbych i gyflwyno goleuadau hidlo traffig yng nghyffordd Tynewydd Road/Ffordd Arfordir y Rhyl.
- (ii) Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James – Gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i wneud cyflwyniadau i gyrff priodol mewn perthynas â pharcio cerbydau preifat ar strydoedd preswyl, gan achosi rhwystr i gerddwyr.
- (iii) Y Cynghorydd J. Ball – Gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i roddi gwahoddiad i'r Swyddog Diogelwch Tân Lleol i wneud cyflwyniad i'r Cyngor mewn perthynas â "phrofi larymau mwg mewn cartrefi ar rent yn y Rhyl".
- (iv) Y Cynghorydd J. Ball – Gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i wneud cyflwyniadau yn gofyn am osod camera cyflymder traffig y tu allan i Ysgol Christchurch, Ernest Street, y Rhyl.
- (v) Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James – Gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i brynu cardiau cyfarch aml-bwrpas ar gyfer y Cyngor Tref.

6. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

7. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

8. EITEMAU CYFRINACHOL GAN YR AELODAU

I benderfynu ar yr eitemau canlynol a gyflwynwyd gan Gynghorwyr:

[Ystyrir bod yr eitemau canlynol yn gyfrinachol gan y byddant yn adnabod unigolion lleol]

- (i) Y Cynghorydd A. S. Johnson – Gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i wneud cyflwyniadau i gydnabod yn barhaol un o breswylwyr nodedig y gorffennol yn y Rhyl.
- (ii) Y Cynghorydd A. S. Johnson – Cydnabod derbyn gwobr gan berson lleol a gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i'r Cyngor Tref gydnabod y wobr.

9. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

10. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.